

Datganiad Polisi Cynnwys S4C 2013

1. Rhagarweiniad: Amcanion y Gwasanaeth

Bwriad S4C, fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus unigryw yn yr iaith Gymraeg, yw gosod y gynulleidfa yng nghanol yr arlwy. Mi fydd S4C hefyd yn parhau i ddarparu cynnwys sy'n cynnig gwybodaeth, sy'n difyrru, ac addysgu. Yn ogystal, fel yr unig wasanaeth darlledu yn yr Iaith Gymraeg, mae angen i S4C ddarparu gwasanaeth sy'n cynnig rhywbeth i bawb o bryd i'w gilydd.

Ond mae'r ffordd y mae gwylwyr yn defnyddio allbwn S4C yn newid ac yn gynyddol mae angen darparu ein cynnwys 'unrhyw le, unrhyw bryd', ar sawl cyfrwng, dyfais a llwyfan, yn ogystal â thrwy gyfrwng darllediadau teledu. Mae'n bwysig hefyd i ystyried adborth ein gwylwyr wrth gynllunio ein rhaglenni. Yn ystod 2012 roedd themâu pendant yn dod i'r amlwg, er enghraifft, yn ein nosweithiau gwylwyr, lle'r oedd galw i S4C ddarparu gwasanaeth teledu mwy ysgafn o ran naws gyda mwy o bwyslais ar adloniant. Ar y llaw arall, roedd cynulleidfaoedd hefyd yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau safonau cynhyrchu uchel ar gyfer ein rhaglenni er mwyn cystadlu'n effeithiol yn y byd aml sianel, aml lwyfan, digidol.

Mae angen adolygiad parhaol ar unrhyw strategaeth gynnwys ond yn ogystal, mae cylchrediad amserol teledu yn creu'r angen i gynllunio dros nifer o flynyddoedd. Fe all y broses o gomisiynu a chynhyrchu cyfres ddrama newydd, er enghraifft, gymryd o leiaf ddeunaw mis. Felly mae cynhyrchu strategaeth o flwyddyn i flwyddyn i ryw raddau yn ddiystyr a dim llawer o ddefnydd i wasanaeth cynnwys sy'n esblygu dros gyfnod llawer hirach.

Mae'r cyfnod presennol o gynydd ariannol, sydd wedi gweld toriad o 36% yng nghyllid S4C mewn termau go iawn, yn creu'r angen i ail ystyried blaenoriaethau'r gwasanaeth. Mi fydd hyn yn ein gorfodi i wynebu cwestiynau anodd a chreu'r angen i wneud asesiad o'n horiau cyfredol ac, er enghraifft, ystyried a oes gormod o oriau mewn ambell i genre. Ein bwriad felly fydd canolbwyntio'r gwariant i'r oriau brig ac ail edrych ar yr amserlen er mwyn creu'r patrwm darlledu mwyaf effeithiol, o safbwynt ein gwylwyr a'r defnydd o adnoddau. Un flaenoriaeth fydd i gryfhau'r gwasanaeth newyddion a sicrhau hyblygrwydd cynnwys i ymateb i straeon cyfredol. Yn ogystal mi fyddwn ni yn gwarchod ein gwasanaethau ar gyfer plant ac ar gyfer dysgwyr.

Mi fydd arlwy S4C yn cynnwys nifer o 'uchelfannau' yn ystod y flwyddyn - rhaglenni unigol neu gyfresi 'tirnod' o bwys arbennig a fydd yn gweithredu fel cerrig milltir yn natblygiad y sianel neu yn creu digwyddiadau cofiadwy ar y sgrin fydd yn ysgogi trafodaeth neu ymateb ymysg gwylwyr. Gall yr uchelfannau yma nodi achlysuron hanesyddol arbennig er enghraifft, 30 mlynedd ers streic y glowyr, neu 100 mlynedd ers geni Dylan Thomas. Mi fyddai'r uchelfannau yma yn ychwanegol i'n darpariaeth bresennol o wyliau cenedlaethol Cymru yn ystod yr haf, sy'n cynnwys ein darllediadau o'r Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. O bosib, mi fyddai'r rhaglenni arbennig yma'n adlewyrchu digwyddiadau hanesyddol neu yn adlewyrchiad o ffrwyth partneriaethau creadigol gyda chyrrff eraill fel, er enghraifft, y Theatr Genedlaethol. Mi fydd yr uchelfannau yn gweithredu ar draws y genres rhaglenni - o ddrama i ddogfen i raglenni plant, ac wedi eu cefnogi gan gynnwys digidol i'w ddarparu ar sawl llwyfan a dyfais.

Mi fyddwn ni'n dilyn polisi o feithrin cyd-gynrychiadau rhyngwladol a lle'n briodol gyda BBC Cymru, yn arbennig ym maes ffeithiol. Ein bwriad hefyd fydd i fod yn weithgar yn y farchnad ryngwladol ym meysydd animeiddio, ac o bosib ffilmiau unigol. Ein nod trwy gyd-gynhyrchu fydd cyflwyno buddsoddiad a gwerthoedd cynhyrchu uwch ar y sgrin a chynnig ystod olygyddol ehangach.

2. Yr Amserlen

Wrth ystyried ein hamserlen newydd ein bwriad yw ymateb i ofynion ein gwylwyr ac i roi eu hanghenion nhw yn gyntaf. Yn ystod 2013 mi fydd 'na newidiadau sylfaenol i'r amserlen a fydd yn cryfhau'r gwasanaeth a'i wneud yn fwy atyniadol.

Mi fyddwn ni'n symud ein prif raglen newyddion yn ystod dyddiau'r wythnos o 7.30pm i 9pm gan ryddhau'r oriau brig ar gyfer comisiynu dramâu a chomedi newydd yn ystod yr wythnos.

Mi fyddwn ni'n cynnig slot hirach i **Heno**, un o gonglfeini ein hamserlen, ar ddydd Llun a Gwener, gan roi rhagor o sylw i'n cymunedau a gweithgareddau ym mhob cwr o'r wlad ac fe fydd y newid yma yn creu'r cyfle i symud **Rownd a Rownd** i slot hwyrach ar nos Fawrth a nos Iau am 7.30pm, gan gyflwyno'r ddrama i gynulleidfa newydd. Mi fydd cyfle hefyd i ddarlledu ystod o raglenni newydd ar nos Fercher a chyfle i wyllo eto rhai o glasuron yr archif. Mi fydd y drefn newydd felly yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'n gwariant rhaglenni ar y sgrin yn ystod yr oriau brig.

Y tu allan i'r oriau brig, mi fyddwn ni'n parhau i ddarparu rhaglenni ar gyfer plant trwy ein gwasanaethau **Cyw** a **Stwnsh**, ynghyd â'n darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr trwy **Cariad @ Iaith a Hwb**.

3. Y Gwasanaeth Newyddion a Materion Cyfoes

Mae ein prif raglen **Newyddion** ar nosweithiau'r wythnos wedi cael ei darlledu am 7.30pm er sawl degawd bellach (ar ôl symud o 7pm yn nyddiau cynnar y sianel). Ond mae arferion byw a gwyllo ein cynulleidfa wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd ac mae slot presennol y rhaglen yn creu anawsterau creadigol o ran datblygu arlwy'r sianel a meithrin dilyniant ar draws y gwasanaeth yn ystod yr oriau brig. Mae ein hymchwil yn dangos fod yna amrywiaeth sylweddol yn rhuglder ein gwylwyr a bod rhai o'n cynulleidfaoedd yn edrych am gynnwys ysgafnach a mwy hamddenol yn ystod oriau cynnar nosweithiau'r wythnos. Penderfynwyd felly ymateb i hyn drwy symud ein prif raglen **Newyddion** i 9pm a rhyddhau'r amser cyn **Pobl y Cwm** tan 8pm i gynnig amrywiaeth newydd o raglenni a fyddai o bosib yn fwy eang ei apel yn ystod y cyfnod hynny.

Mi fydd symud amser darlledu **Newyddion** i 9pm yn ystod yr wythnos yn ein galluogi ni i newid ffurf yr amserlen yn ystod yr oriau brig, a chreu cyfle i adeiladu'n cynulleidfa trwy gydol y noson. Mi fydd yn creu conglaen newydd i wasanaeth newyddion S4C a chreu gwasanaeth fydd yn berthnasol i'r adeg honno o'r nos ac i gynulleidfa S4C, a fydd yn cynnwys newyddion Cymru a'r byd. Credwn fod y rhaglen Newyddion am 7.30pm yn rhy agos i raglenni newyddion y darlledwyr eraill ac mae darlledu'r brif raglen yn hwyrach yn y nos yn cynnig cyfleoedd golygyddol newydd i ddiweddarau prif straeon y dydd ac adrodd ar ddiwyddiadau gyda'r hwyr ledled Cymru. Yn ogystal, mi fyddwn ni'n cynyddu'r defnydd o raglenni newyddion arbennig fydd yn ymateb yn sydyn i straeon mawr. Mi fydd yr amser darlledu newydd ar gyfer **Newyddion** yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill.

Yn ogystal â manteision golygyddol mae yna fantais fasnachol o symud y newyddion yn hwyrach gan ei fod yn creu toriad hysbysebu newydd gwerthfawr yn yr oriau brig.

Mi fyddwn yn parhau i ddarparu ystod gynhwysfawr o raglenni a chyfresi materion cyfoes a fydd yn cynnwys newyddiaduriaeth ymchwiliadol ac ymdriniaeth o faterion gwleidyddol sy'n berthnasol i Gymru yn lleol, ynghyd â'r datblygiadau diweddaraf ym mae Caerdydd, yn San Steffan ac ym Mrwsel.

4. **Adloniant**

Mi fyddwn ni'n canolbwyntio ar ddarparu rhaglenni adloniant ar draws yr wythnos ac yn datblygu cyfresi 'ail-sgrin', fydd yn gwneud defnydd creadigol o dechnolegau dyfeisiadau symudol a llwyfannau newydd. Mi fyddwn ni'n cynnig llwyfan i'n perfformwyr sefydledig trwy gyfresi wedi eu seilio ar ddoniau unigryw. Byddwn hefyd yn agored i syniadau fydd yn rhoi llwyfan i'r enwau mawr. Mi fyddwn ni'n cyd-weithio gyda'r sector gynhyrchu i ddatblygu talent dros y 5/10 mlynedd nesa, boed yn awduron, yn berfformwyr, yn gyfarwyddwyr neu yn dechnegwyr. Mae sicrhau llif talent greadigol i'r dyfodol yn hynod o bwysig i bob darlledwr a'n gobaith yw medru datblygu'r genhedlaeth nesaf o berfformwyr a chynhyrchwyr trwy ein cyfresi presennol.

Mi fyddwn ni'n blaenoriaethu datblygu comedi yn annibynnol ac ar y cyd gyda Radio Cymru. Mi fydd cyfresi newydd o sioeau 'standups' yn cael ei chomisiynu yn ogystal â sioeau sgetsau a drama ysgafn.

Mae'r maes yma'n medru bod yn anodd gan fod gwariant darlledwyr eraill mor uchel ac mae'r gystadleuaeth ar sianelau eraill yn gryf iawn. Ond mae angen i ni gadw ein huchelgais a datblygu syniadau sydd yn cynnig profiad gwahanol i'r hyn sydd ar y rhwydwaith. Cryfder S4C ydy ei hagosatrwydd at y gynulleidfa ac mi rydym ni'n chwilio am syniadau sydd wedi ei gwreiddio yn gryf yng nghymunedau Cymru. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod rydym am ddatblygu syniadau fydd yn rhoi cyfle i'r amryw gymunedau hynny gael eu hadlewyrchu ar y sgrin. Gall y syniadau yma amrywio o gwisiau syml i ddigwyddiadau uchelgeisiol ac i gynnwys fydd yn cynnig cyfleoedd i ryngweithio yn uniongyrchol gyda'r sianel.

Mae yn bwysig hefyd ein bod yn blaenoriaethu'r talentau arbennig sydd gennym fel cenedl - boed yn enwau mawr rhyngwladol neu'n artistiaid gwreiddiol Cymraeg sydd yn weithgar yn y cymunedau. Yn yr un modd â'r maes adloniant, mi fyddwn ni hefyd yn creu strategaeth datblygu talent dros gyfnod o bum mlynedd ar gyfer rhaglenni pobl ifanc. Ein hathroniaeth fydd i gomisiynu trawsdoriad o fathau o raglenni sy'n apelio yn eang ond yn gorfod cystadlu am eu lle yn yr amserlen. Mi fyddwn hefyd yn comisiynu cyfresi cerddoriaeth gyfoes.

5. **Ffeithiol**

Ein bwriad wrth ymateb i ymchwil gwylwyr fydd cryfhau'r ystod o raglenni ffeithiol gan gynnwys mwy o gyfresi yn yr oriau brig sy'n trafod gwyddoniaeth a hanes, gyda mwy o bwyslais ar gymunedau a bröydd ar hyd a lled Cymru. Mae hyn yn ymateb i ymchwil annibynnol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n awgrymu fod cydnabyddiaeth o S4C yn sylweddol is na'r cyfartaledd o ddarlledwyr ar gyfer rhaglenni gwyddoniaeth, y celfyddydau a hanes. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos fod gwylwyr yn mwynhau gweld amrywiaeth daearyddol a phynciol ar y sgrin, sy'n rhoi'r cyfle i ddysgu am rannau o Gymru gyda'r pwyslais ar elfennau a phobl leol.

Ein bwriad felly fydd datblygu cysylltiadau agos gyda chymunedau Cymru a chyrrff amrywiol drwy ddatblygu strategaeth partneriaethau gydag ystod eang o gyrff a chymdeithasau yng Nghymru o'r Cyngor Chwaraeon i'r Cyngor Llyfrau.

Mi fyddwn ni'n cryfhau **Heno** yn olygyddol gan gynnwys elfennau hamdden a chwaraeon. Mi fydd ein hamserlen newydd hefyd yn golygu y bydd rhaglenni **Heno** ar nos Lun a nos Wener yn awr o hyd ac yn fwy hamddenol gyda mwy o eitemau o leoliadau ar draws Cymru. Yn ogystal mae'n fwriad i gryfhau yn bellach adnoddau yng Ngogledd Cymru i sicrhau cynnwys cyson ledled Cymru. Bydd mwy o gyfleoedd i drafod, yn ogystal ag ysgafnder cerddorol.

6. **Drama a Chomedi**

Drama yw un o brif elfennau'r gwasanaeth ar nos Sul, ond yn ogystal mae'r nifer o wylwyr ar gyfer cyfresi poblogaidd yn cynyddu ar y we trwy ein gwasanaeth Clic. Ein bwriad tymor hir fydd cyflwyno cyfresi drama newydd yn ystod yr wythnos, lle mae cyllid yn caniatáu. Mi fyddwn ni hefyd yn comisiynu dramâu unigol a chyfresi byrion 2/3 rhan, yn ogystal â chyfresi hir poblogaidd. Mi fydd **Pobol y Cwm** yn parhau fel prif gyfres sebon y sianel gyda lle parhaus am 8pm bob noson o'r wythnos gyda darllediad omnibws, fydd yn cynnwys isdeitlau agored, ar brynhawn Sul.

Wrth i **Rownd a Rownd** gael ei darlledu yn yr oriau brig fe fydd yn dod â naws iau, mwy cyfoes i'r ddarpariaeth ar ddwy noson o'r wythnos am hanner awr wedi saith, ac fe fydd hyn yn sicr i'w groesawu. Ond rydym hefyd yn y maes yma am ddatblygu perthynas glos gyda'r Theatr Genedlaethol - mae'n gyfle i feithrin talent ac i gyfrannu gwerth ychwanegol i gynnwys y Sianel yn ogystal â chynrychiadau'r Theatr Genedlaethol. Mae'n gyfle hefyd i feithrin talent awduro ac actorion, ond mae hefyd yn gyfle i fod yn flaengar gyda chynnwys aml-lwyfan. Roedd cynhyrchiad y cwmni **Y Bont** yn Aberystwyth yn enghraifft o'r hyn sydd dan sylw. Fe fydd addasiad o'r digwyddiad ar S4C yn dilyn y perfformiad ond mae yna eisoes fywyd digidol bywiog wedi deillio o'r cyd-weithio a fydd yn parhau tan y fersiwn ar deledu yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae'r cydweithio yma eisoes wedi creu cynnwys sydd yn cael ei drafod a'i werthfawrogi. Ni fydd cynhyrchiad gan S4C i bob un o brosiectau'r Cwmni Theatr, nid dyna'r bwriad, ond lle mae yn gweithio yn olygyddol i'r ddau sefydliad yna fe fyddwn yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r opsiynau.

Byddwn hefyd ym maes Drama yn nodi digwyddiadau arbennig o bryd i'w gilydd ac rydym ar gyfer 2014 yn ystyried syniadau yn ymwneud â phenblwyddi nodedig, er enghraifft, dathliadau canrif ers genedigaeth Dylan Thomas a 30 mlynedd ers Streic y Glowyr. Y nod fydd creu uchelfannau creadigol i'r amserlen.

Yn 2013 rydym yn darlledu'r gyfres ddrama uchelgeisiol, **Mathias/ Hinterland** sydd yn cael eu saethu gefn wrth gefn, Cymraeg a Saesneg, ac fe fydd darllediadau ar BBC Cymru hefyd. Mae eisoes wedi ei gwerthu i deledu Denmarc ac mae'n fwriad i barhau i geisio creu prosiectau uchelgeisiol tebyg i'r dyfodol.

7. **Chwaraeon**

Mae Chwaraeon yn cynnig cyfle i ehangu sylfaen cynulleidfa S4C gan fod darlledu gemau clwb rygbi a gemau allweddol pêl droed yn boblogaidd iawn ac yn fodd i ddenu gwylwyr di-Gymraeg i'r sianel. Mi fyddwn ni felly yn parhau i ddarparu sylwebaeth yn Saesneg ar y botwm coch yn ogystal ag yn Gymraeg, lle mae modd sicrhau'r hawliau i wneud hyn. Mi fyddwn ni hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r hyn sy'n dderbyniol i'w wario ar hawliau chwaraeon gan gydweithio'n agos gyda'r BBC.

Ond mae mwy i chwaraeon na rygbi neu bêl droed, ac ein bwriad hefyd fydd lleihau ein horiau chwaraeon prif-ffrwd ac ymestyn yr arlwy i gynnwys chwaraeon amgen, gan ddefnyddio ceinciau dyddiol yn yr amserlen i'r perwyl yma.

8. **Cynnwys Digidol**

Fel sydd wedi ei nodi yn gynt, mae patrymau ac arferion ein gwylwyr yn newid ac mae angen sicrhau fod cynnwys S4C yn parhau i fod yn berthnasol i'n holl wylwyr a defnyddwyr. Mi fyddwn ni felly yn parhau i gynhyrchu deunydd digidol atodol ar gyfer ein rhaglenni a datblygu ffyrdd newydd creadigol i fanteisio ar dechnolegau newydd er mwyn cryfhau ein gwasanaeth. Mi fyddwn ni'n rhyddhau cynnwys archif llyfrgell rhaglenni S4C at bwrrpas addysgol ac yn gyfrannu deunydd addysgol i HWB newydd Llywodraeth Cymru. Gan edrych i'r dyfodol, ein bwriad hefyd

fydd sefydlu cylch gwaith newydd drwy gytundeb gyda'r Llywodraeth, er mwyn rhoi mwy o ryddid i ni ddatblygu cynnwys digidol yn fwy annibynnol o gynnwys ein rhaglenni teledu.

9. Archif

Byddwn yn ystyried ein harchif fel adnodd pwysig creadigol arall wrth fynd ati i lunio'r amserlen. Mae uchelfannau'r amserlen yn cynnig cyfle arbennig i gyfuno rhaglenni cyfoes gyda chynnwys o'r gorffennol i gryfhau'r arlwy a chynnig profiadau cyfoethocach i'r gynulleidfa.

Byddwn, yn ogystal, yn ail-ddarlledu cyfresi yn eu cyfanrwydd, gan ddewis rhai o safon uchel a fydd yn creu trafodaeth. Mi fyddwn yn ail-ddarlledu cyfresi drama o fewn yr wythnos gydag is-deitlau agored ac fe fyddwn yn cofnodi dyddiau nodedig o fewn yr amserlen gyda rhaglenni arbennig o'r archif.

10. Casgliadau

Ein nod yw creu gwasanaeth y bydd pob Cymro a Chymraes o bob safon iaith yn falch ohono. Byddwn yn hafan i greadigrwydd. Byddwn yn corddi'r dyfroedd. Byddwn yn flaengar wrth adlewyrchu bywyd Cymru. Ac mi fydd ein strategaeth cynnwys yn esblygu yn helaeth dros y blynyddoedd nesaf.